# Eich Newyddlen

Newyddlen y tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych

RHIFYN 13

Gwanwyn/Haf 2024








## canlyniadau Arolwg STAR

**Gwrandawon ni arnoch!**
Tudalennau 4 a 5








**Cyngor diogelwch** Tudalen 11

**Mynd allan i'r gymuned dros yr haf eleni** Tudalen 7

**Tîm cynnal a chadw tiroedd newydd** Tudalen 12

Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

www.taisirddinbych.co.uk
@TaiSirDdinbych

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Neges gan Geoff

***Croeso i'r rhifyn diweddaraf o'ch newyddlen. Yn yr un modd ag arfer, gobeithiwn y bydd ein newyddlen o ddiddordeb ac yn ddefnyddiol i chi.***



Mae'n gyfnod prysur i'r byd tai yng Nghymru ar hyn o bryd, ac rydym yn ymdrin â rhai newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys cyflwyniad diweddar Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, sydd wedi newid y ffordd y caiff llawer o'n gwaith ei gwblhau. Daeth Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023 hefyd i rym ym mis Ebrill.

Mae'r newidiadau hyn yn gosod safon uchel iawn ar gyfer cartrefi yng Nghymru y mae gofyn i ni ei chyflawni. Ni fydd hyn yn digwydd dros nos gan fod costau ac adnoddau sylweddol yn gysylltiedig â darparu'r safon newydd. Mae arnom ni hefyd angen i'r diwydiant a chontractwyr fedru cyflenwi'r deunyddiau, a'r sgiliau i gefnogi pawb yng Nghymru i gyflawni'r safon a ddisgwylir mewn cartrefi modern yng Nghymru.

Yn ogystal â hynny, mae'r pandemig wedi ac yn parhau i gael effaith sylweddol arnom ynghyd â chwyddiant uchel sydd wedi cynyddu'r costau mewn cyfnod cymharol fyr.

Mae arnom angen eich cymorth chi hefyd. Mae arnom ni angen i bobl sy'n byw yn ein cartrefi (ein tai ni, eich cartrefi chi!) roi gwybod i ni p'un a ydym ar y trywydd iawn, y pethau yr ydym yn eu gwneud yn dda a phethau nad ydym yn eu gwneud cystal. Rydym bob amser yn gwrando ar eich adborth, ond mae arnom ni angen clywed barn mwy o bobl. Gallwch rannu eich barn drwy gysylltu â ni ar 01824 706000, tai@sirddinbych.gov.uk neu drwy ymweld â'n gwefan www.taisirddinbych.co.uk/

Rydym yn gwybod bod gennym lawer o waith i'w wneud, a byddai'n wych clywed eich barn chi am beth y dylem ganolbwyntio arno. I ddechrau, rydym yn awyddus i ganolbwyntio ar ein cynnyrch digidol a'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â'n tenantiaid. Er enghraifft, cyflwyno gwasanaeth neges destun cefnogaeth rhent. Byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth am hyn yn ein rhifyn nesaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych (DTARF), ein ffederasiwn ar gyfer cymdeithasau tenantiaid yn y sir. Rydym yn gwerthfawrogi'r oriau maith y mae pobl yn eu treulio'n helpu eu cymdogion a'u cymunedau. Fodd bynnag, rydym bob amser yn chwilio am fwy o ffyrdd i ymgysylltu â chi. Cadwch lygad allan am gyfleoedd i fynychu digwyddiadau, fforymau ar-lein neu arolygon ar-lein dros y misoedd nesaf.

Mae croeso i chi gysylltu â ni. Byddem wrth ein boddau'n clywed gennych chi.

MIX
Paper from responsible sources
FSC www.fsc.org FSC® C006518

Unwaith y byddwch wedi darllen y newyddlen, gallwch ei rhoi ym mlwch uchaf eich Trolibocs sydd â cha ead glas

**Gellir ailgylchu'r 100% or newyddlen hon.**




## Yn y rhifyn hwn

### Tai Sir Ddinbych:

2 Neges gan Geoff
4 Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR), Dywedoch chi – gwnaethom ni
11 Rhoi gwybod am atgyweiriad
12 Eich Tîm Cynnal a Chadw Tiroedd newydd
11 Dod i'n hadnabod ni'n well

### Cymuned a Phobl:

3 Neges gan DTARF
6 Y wybodaeth ddiweddaraf gan y tîm Gwytnwch
7 Allan ac o gwmpas yn ein cymunedau
8 Pobl Ifanc Sir Ddinbych yn cynnal digwyddiad ymgynghori
10 Sbotolau ar Hwb Cymunedol Pengwern
11 Cyngor mewn perthynas ag ateb eich drws

### Buddsoddi a Gwelliannau:

7 Gwella eich cymunedau
11 Rhybudd am gwmnïau hawliadau atgyweirio tai!
14 Gwasanaeth negeseuon testun cymorth rhent
18 Ein cartrefi newydd
19 Ein cymunedau
20 Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023 diweddaru

### Negeseuon y Cyngor:

15 Y gwasanaeth ailgylchu newydd
16 Lwfans priodas, oeddech chi'n gwybod?
17 Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant, oeddech chi'n gwybod?



# Neges gan Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych

**Helo, John ydw i, Cadeirydd Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych**



Ym mis Mawrth, mynychodd Brian (chwith) a minnau (canol) ddigwyddiad TPAS Cymru, ynghyd â dau swyddog Tai Sir Ddinbych yn Venue Cymru.

Roedd y digwyddiad yn gyfle i glywed gan ystod o siaradwyr am yr hyn sy'n digwydd mewn cymunedau a tai cymdeithasol yng Ngogledd Cymru. Roedd y siaradwyr yn cynnwys cymdeithasau tai, Cynghorau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac elusennau.

Rhannwyd gwybodaeth am y prosiectau a gaiff eu cynnal yn ein cymunedau a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar y cyd i greu tai a chymunedau gwell i denantiaid ar draws Gogledd Cymru. Roedd yn werth mynychu'r digwyddiad hwn, yn enwedig er mwyn cwrdd â thenantiaid eraill ar draws Gogledd Cymru.

Yn ddiweddar, gofynnwyd i mi beth oedd y buddion o fod yn aelod o Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, ac mae mynychu'r digwyddiadau a gynhelir gan Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid yn enghraifft wych. Credaf hefyd fod aelodau Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych yn gallu:

- Dysgu am bethau sydd eisoes yn digwydd neu sydd ar y gweill a chwrdd â swyddogion yn fisol.
- Gweithredu fel cyswllt rhwng tenantiaid a Tai Sir Ddinbych.
- Bod yn rhan o grŵp o bobl o'r un anian sy'n ymrwymo i wella gwasanaethau tai i denantiaid.
- Cefnogi ei gilydd. Er enghraifft, mae grwpiau preswyl Llys y Felin a Threm y Foel wedi llwyddo â'u cais i Gronfeydd Cymunedol Fferm Wynt Clocaenog a Gwynt y Môr. Mae'r grantiau hyn wedi eu galluogi i wella eu canolfannau cymunedol a phrynu cyfarpar a deunyddiau i gynnal gweithgareddau amrywiol ar gyfer eu cymuned.

Felly os hoffech chi fod yn rhan o Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, cysylltwch!

**Mae croeso i chi gysylltu â ni!**
Os hoffai unrhyw denantiaid gysylltu drwy e-bost (dtarf@outlook.com) neu drwy roi sylw ar ein tudalen Facebook (https://www.facebook.com/DTARF).

Rydym yn hapus i deithio i'ch cyfarfod cymunedol i drafod a chynnal ein cyfarfodydd Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych mewn gwahanol ganolfannau cymunedol ar draws Sir Ddinbych unwaith y mis.

Mae hwn yn gyfle i chi roi gwybod i ni am bethau'n ymwneud â tai (nid tyllau yn y ffordd a biniau er enghraifft). Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau yr hoffech eu gofyn, neu unrhyw adborth yr hoffech ei rannu, rhowch wybod i ni.

**Edrychwn ymlaen at glywed gennych, John**

Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Denbighshire Tenants and Residents Federation

## NEGESFWRDD

**I roi gwybod am unrhyw faterion cynnal a chadw, cysylltwch â Gwasanaethau i Gwsmeriaid:**

Dydd Llun i ddydd Iau 9:00am-5:00pm,
Dydd Gwener 9:00am-4:30pm
**01824 706000**

Argyfyngau y tu allan i oriau swyddfa **0300 123 3068**

Galw Gofal (Llinell Ofal)
**0300 123 6688**

Un Pwynt Mynediad ar gyfer atgyfeiriadau am gefnogaeth
**0300 456 1000**

Argyfwng nwy **0800 111 999**

Argyfwng trydan **0800 3163 105**

Galw Iechyd Cymru **111**

Floodline **0345 988 1188**

Type Talk **0345 602 6340**



# Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr (STAR)

Yn gyntaf, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gymerodd ran yn ein harolwg diweddar gan fod eich barn yn bwysig i ni.

Cawsom **893** o ymatebion (**28%**), (ac roedd 890 (**99%**) o'r rhain ar-lein. Dyma'r gyfradd ymateb uchaf ers i ni ddechrau cynnal yr arolwg STAR yn 2015, sy'n newyddion ffantastig!

**Mae eich prif flaenoriaethau'n cynnwys:**

- Gwella ansawdd ein heiddo
- Ymgymryd â gwaith atgyweirio'n gynt a chwblhau gwaith atgyweirio sydd heb gael ei wneud
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Gwrando ar denantiaid
- Cyfathrebu gwell

**Y meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt:**

- Sefydlu fforwm atgyweirio gyda thenantiaidedrych ar ffyrdd y gallwn ddatblygu ein hatgyweiriadau agwasanaethau cynnal.
- Cerdded o gwmpas yn ein cymunedaumwy a chynnal digwyddiadau a sioeau teithiol yn ein cymunedau.
- Ailsefydlu ein pencampwyr 'Ceidwaid Gwyrdd' ihelpu i fonitro'r gwasanaeth cynnal a chadw tir asicrhau gwerth am arian ar gyfer taliadau gwasanaeth.

Yn ogystal â hynny, nododd 85% ohonoch eich bod yn fodlon ag ansawdd cyffredinol eich cartref.

Bydd rhagor o waith yn cael ei gwblhau i ystyried manylion y sylwadau er mwyn ein galluogi i ddatblygu ein hymateb a byddwn yn cynnwys diweddariad **"Dywedoch Chi - Gwnaethom Ni"** yn ein newyddlenni rheolaidd.

## Beth nesaf?

**Bydd y cynllun gweithredu cychwynnol yn canolbwyntio ar y camau canlynol:**

- Cyfathrebu sut bydd gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC 2) yn cael effaith ar ein gwelliannau eiddo a sut a phryd fydd rhaglenni'n cael eu darparu.
- Adolygu ein Polisi Atgyweirio - bydd hyn yn cynnwys ymgysylltiad mwy manwl â thenantiaid.
- Dadansoddiad o sylwadau am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a meysydd daearyddol ble mae yna lai o fodlonrwydd.
- Datblygu ein Cynllun Ymgysylltu gyda DTARF i edrych ar ffyrdd y gallwn wella cyfathrebu a deall sut y gallwn wrando mwy ar ein cwsmeriaid.





# STAR YSTADEGAU

### Gwasanaeth cyffredinol
**Dywedodd 85%**
ohonoch eich bod yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwn

### Ansawdd y cartref
**Dywedodd 82%**
ohonoch eich bod yn fodlon ag ansawdd cyffredinol eu cartref

### Atgyweiriadau
**Dywedodd 79%**
ohonoch eich bod yn fodlon â'r ffordd yr ydym yn delio ag atgyweiriadau a chynnal a chadw

### Rhent
£ RHENT

**Dywedodd 86%**
ohonoch eich bod yn fodlon bod eu rhent yn rhoi gwerth am arian

### Gwrandewch a gweithredwch
**Dywedodd 64%**
ohonoch eich bod yn fodlon ein bod yn gwrando ac yn gweithredu ar yr hyn rydych chi'n ei ddweud

### Eich dweud
**Dywedodd 63%**
ohonoch eich bod yn fodlon bod gennych lais yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu rheoli

### Taliadau Gwasanaeth
**Dywedodd 69%**
ohonoch eich bod yn fodlon bod eu tâl gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian

### Penderfyniadau
**Dywedodd 57%**
ohonoch eich bod yn fodlon ar y cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau

### Ymddygiad gwrthgymdeithasol
**Dywedodd 62%**
ohonoch eich bod yn fodlon â'r ffordd yr ydym yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

### Cymdogaeth
**Dywedodd 82%**
ohonoch eich bod yn fodlon â'ch cymdogaeth fel lle i fyw

### Saff ac yn ddiogel
**Dywedodd 84%**
ohonoch eich bod yn fodlon ein bod yn darparu cartref sy'n ddiogel ac yn ddiogel

### Hawdd delio â
**Dywedodd 83%**
ohonoch eich bod yn fodlon ein bod yn hawdd delio â ni

### Cyfraniad cadarnhaol
**Dywedodd 67%**
ohonoch eich bod yn fodlon ein bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'ch cymdogaeth

### Ymddiried
**Dywedodd 74%**
ohonoch eich bod yn ymddiried mewn Tai Sir Ddinbych

Cymuned
Community

# Y wybodaeth ddiweddaraf gan y tîm Gwytnwch

Diolch i bawb a ymatebodd i'n harolwg **Sgiliau Digidol diweddar**! Cawsom ymateb gwych, ac rydym bellach yn defnyddio'r wybodaeth i ystyried pa gefnogaeth a chymorth y gallwn eu darparu i chi.

## Beth nesaf?

**Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau i lywio:**

- Prosiect newydd i ddarparu cefnogaeth Cynhwysiant Digidol i denantiaid a phreswylwyr yn Sir Ddinbych. Darperir prosiect Hyder Digidol Sir Ddinbych gan Cwmpas ac fe'i hariannir gan Gyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth y DU.



Bydd y prosiect hwn yn cynnig cefnogaeth i unigolion yn y sir â chynhwysiant digidol. Darperir cefnogaeth drwy gynnig cyngor, cynnal sesiynau galw heibio a hyfforddiant yn ymwneud â chynhwysiant digidol er mwyn galluogi preswylwyr i gael mynediad at y gwasanaethau digidol sydd eu hangen arnynt mewn bywyd bob dydd.

**Am ragor o wybodaeth,** ymwelwch â **https://cy.cwmpas.coop/hyder-digidol-sir-ddinbych/**

- Pa denantiaid sydd angen cymorth a chefnogaeth i fynd ar-lein. Gallai hynny gynnwys datblygu sgiliau digidol, magu hyder neu gael cymorth i fynd ar-lein.


**Dyma beth rydym wedi'i ddysgu hyd yma o'r ymatebion a gawsom:**

Mae 79% o ymatebwyr yn gyfforddus yn defnyddio'r we.

Mae 52% o breswylwyr yn hyderus iawn yn defnyddio'r we.

Nid yw 12% o ymatebwyr yn gwybod sut i sicrhau bod eu gwybodaeth bersonol yn ddiogel ar-lein.

Mae 85% o ymatebwyr wedi gofyn i gael eu hatgyfeirio at ein Swyddog Digidol i dderbyn cymorth â chyflymder y rhyngrwyd yn eu cartref.





Y 3 ap y mae ein hymatebwyr yn eu defnyddio fwyaf yw:

- WhatsApp
- Facebook Messenger
- Facebook

Unwaith y byddwn wedi cael cyfle i fynd drwy'r wybodaeth, gallwn rannu rhagor o wybodaeth gyda chi yn ein rhifyn nesaf.

Am rŵan, os hoffech chi unrhyw gymorth neu gefnogaeth â'ch sgiliau digidol, cysylltwch â ni ar 01824 706000 a gofynnwch i'r tîm Gwytnwch Cymunedol, neu anfonwch e-bost atom ar **tai@sirddinbych.gov.uk**



# Rydym wedi bod allan yn y gymuned dros y gwanwyn eleni!

Roedd cymuned Parc Bruton wedi mwynhau'r Digwyddiad Pasg Parc Bruton a gynhaliwyd dros wyliau'r Pasg yn fawr.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau i deuluoedd gymryd rhan ynddynt, gan gynnwys peintio wynebau, celf a chrefft, chwaraeon, a hyd yn oed helfa drysor o amgylch y warchodfa natur. Roedd yn wych gweld Dŵr Cymru, Cyngor ar Bopeth, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru a Dechrau'n Deg yno hefyd. Dyma ambell i sylw a gawsom gan bobl ar y diwrnod:

"Fe wnaeth y criw hamdden helpu fy mab ieuengaf i reidio beic ar ei ben ei hun, diolch yn fawr iawn am ddiwrnod hyfryd."

"Fy hoff ran o'r digwyddiad oedd yr helfa drysor, roedd y plant wrth eu boddau'n chwilio am yr wyau a'u henwi."







# Gwella eich cymunedau

Yn ddiweddar, mae dwy o'n cymunedau wedi llwyddo gyda'u ceisiadau am grantiau i wella a rhoi chwa o awyr iach i'w canolfannau cymunedol.

Cyflwynodd **Cymdeithas Denantiaid Trem y Foel, Rhuthun** gais i Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Clocaenog, a llwyddwyd i dderbyn ychydig dros £3000, a ddefnyddiwyd i brynu cadeiriau a llenni / bleinds newydd er mwyn creu amgylchedd croesawgar a chlyd. Yn ogystal â hynny, prynodd y grŵp fwrdd amlddefnydd newydd i chwarae pŵl, tennis bwrdd neu ddartiau, ynghyd â buddsoddi mewn offer cegin i'w galluogi i gynnig gweithgareddau amrywiol i'r tenantiaid a'r preswylwyr.

Llwyddodd **Cymdeithas Breswylwyr Llys y Felin, Llanelwy** gyda'u cais i Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr hefyd, cawsant £1834 er mwyn prynu:

- Tŷ gwydr ar gyfer eu gardd gymunedol,
- Gwely llysiau wedi'i godi, gan gynnwys pridd.
- Cyfarpar newydd er mwyn i breswylwyr fedru chwarae pŵl, bowls a thennis bwrdd,

O ganlyniad i'r cyllid hwn, mae'r grŵp preswylwyr yn gobeithio trefnu noson gemau a chlwb garddio i roi cyfle i breswylwyr lleol gael cyfarfod a mwynhau.



# Pobl Ifanc Sir Ddinbych yn cynnal digwyddiad ymgynghori ar lwybrau beicio mwy diogel

Mae grŵp o bobl ifanc o Sir Ddinbych wedi cynnal digwyddiad i gael barn y cyhoedd am lwybrau beicio diogel er mwyn iddyn nhw allu teithio o gwmpas ar eu beics a chadw'n actif.



Daeth y syniad ar ôl i Osian Gregson, sy'n 13 oed ac yn mynd i Glwb Ieuenctid Dinbych benderfynu gwneud rhywbeth ar ôl dechrau teimlo'n rhwystredig nad oedd unrhyw le addas yn y dref iddo ef a phobl ifanc eraill yn yr ardal allu mynd allan i chwarae'n ddiogel ar eu beics. Rhannodd ei bryderon gyda Gweithiwr Ieuenctid a ddywedodd wrtho beth y byddai angen iddo'i wneud i'w lais gael ei glywed.

Aeth Osian ymlaen i ysgrifennu at ei AS lleol i rannu ei farn am yr angen am lwybrau ac ardaloedd mwy diogel i bobl reidio eu beics yn Sir Ddinbych cyn ymuno â phobl eraill o'r Clwb Ieuenctid i lansio'r ymgyrch 'Twmpathau a Neidiau'.

Nod eu hymgyrch yw casglu barn a chael cefnogaeth ar gyfer llwybrau beicio ac ardaloedd lle gall pobl ifanc fynd i reidio eu beics yn ddiogel.

Lansiodd y grŵp yr ymgyrch ar 26 Mawrth 2024 gyda digwyddiad ymgynghori yng Nghae Hywel yn Ninbych gyda chefnogaeth eu Gweithiwr Ieuenctid o Wasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych.

Bwriad y digwyddiad oedd rhoi cyfle i'r gymuned leol rannu eu barn ar yr angen am fwy o lwybrau ac ardaloedd i reidio'n ddiogel yn Sir Ddinbych, er enghraifft traciau pwmpio.

Fe wnaeth y grŵp hyd yn oed osod trac pwmpio symudol yn y digwyddiad er mwyn dangos rhai o'u sgiliau beicio ac arddangos manteision trac o'r fath yn Ninbych.

Fe wnaeth Hamdden Sir Ddinbych a Tai Sir Ddinbych ddarparu gweithgareddau eraill fel 'zorbs' a gweithgareddau peintio, a threfnodd Hwb Dinbych a Phrosiect Ieuenctid Dinbych ginio pecyn ar gyfer y rhai a oedd yn bresennol. Roedd Beics Drosi hefyd yn bresennol gyda'u gwasanaeth meddyg beics i wirio diogelwch beiciau a chynnig cyngor.

Y digwyddiad ymgynghori hwn oedd cam cyntaf prosiect Twmpathau a Neidiau'r bobl ifanc gyda'r grŵp eisoes yn cynllunio gweithgareddau'r dyfodol gyda chefnogaeth eu Clwb Ieuenctid i fynd â'r ymgyrch ymhellach.

Dywed Osian: "Daeth y syniad ar gyfer yr ymgyrch yn rhannol o'r ffaith 'mod i'n caru bod y tu allan, mi 'fasa'n well gen i fod allan nag ar y PlayStation! Ond hefyd dydi pawb ddim yn gallu mynd o un lle i'r llall yn hawdd. Mae 'na rai pobl ifanc 'efo rhieni sydd ddim yn gyrru felly mae nhw'n dibynnu ar eu beic i fynd o un lle i'r llall a 'dwi eisiau gallu teimlo'n ddiogel wrth reidio o un lle i'r llall yn Ninbych.

"Nid yw'r ymgyrch hwn yn ymwneud â llwybrau beicio mwy diogel yn unig, ond does 'na wir unman lle gallwn fynd allan ar ein beics yn ddiogel efo'n ffrindiau yn Ninbych. Dyna pam y byddai rhywbeth fel trac pwmpio yn yr ardal mor wych, achos byddai'n lle i ni fynd i gymdeithasu a chadw'n actif yn lle eistedd yn ein cartrefi."

Dywedodd Liz Grieve, Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymunedol Sir Ddinbych: "Mae hi mor galonogol gweld grŵp o bobl ifanc mor frwdfrydig yn rhoi cymaint o ymdrech i mewn i rywbeth fydd o fantais i'w cymuned leol ac yn annog pobl ifanc eraill i fynd allan a chadw'n ffit.

"Hoffwn ddiolch i Wasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych am gefnogi'r bobl ifanc ar eu siwrnai a gwireddu eu nodau ac edrychaf ymlaen at weld cynnydd yr ymgyrch 'Twmpathau a Neidiau'. Rydw i'n dymuno'r gorau i'r grŵp gydag unrhyw weithgareddau neu ddigwyddiadau maen nhw'n eu trefnu i yrru'r ymgyrch yn ei blaen."







# Sbotolau ar Hwb Cymunedol Pengwern, Llangollen

Yn ein newyddlen yn yr Hydref 2021, soniwyd am waith Hwb Cymunedol Pengwern a'r effaith gadarnhaol ar y gymuned leol. Ers hynny, mae'r Hwb wedi mynd o nerth i nerth, mae'n ganolbwynt i'r gymuned ac mae eu stori dros y 2 flynedd a hanner diwethaf yn ysbrydoliaeth i bawb!

Yn 2022, cwblhawyd adeiladau'r Hwb, a chreu unedau pwrpasol i ddarparu ardaloedd ychwanegol ar gyfer cynnal cyfarfodydd cyfrinachol a gweithdai cymunedol, yn ogystal â swyddfa newydd.

Ers hynny, mae Jen Naylor, y Cydlynydd Prosiect ar gyfer Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych, wedi cefnogi'r Hwb. Mae Jen wedi cefnogi grŵp Cyfeillion Pengwern i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau, prosiectau a gweithgareddau ar gyfer cymuned Pengwern a Llangollen gan gynnwys:

- Ti a Fi
- Sesiynau Coginio a Bwyta Gyda'n Gilydd i'r Teulu
- Gweithdy Minecraft
- Sesiynau Cwrdd a Chreu
- Dydd Mercher Lles
- Digwyddiadau cymunedol â thema
- A llawer iawn mwy!








O ganlyniad i'w gwaith caled, a'r manteision cysylltiedig i'r gymuned, nhw oedd enillwyr Gwobr Prosiect Tai Cymunedol y Flwyddyn Sir Ddinbych yn ein gwobrau tenantiaid yn 2022!

Maent wedi parhau i weithio gyda'r gymuned i ddatblygu rhaglenni a digwyddiadau newydd ac ati gan wneud gwahaniaeth enfawr. Yn eu hadroddiad prosiect diweddaraf, nodwyd eu bod, dros y 12 mis diwethaf, wedi:

- **306** sesiwn gymunedol.
- **98** o weithgareddau cymdeithasol i'r gymuned.
- **62** o weithgareddau arbennig ar gyfer teuluoedd.
- **146** o wasanaethau/gweithgareddau lles a chyngor.
- Ymgysylltu â **2,472** o breswylwyr yn yr Hwb.
- Denu **331** o breswylwyr newydd i'r sesiynau.
- **1,643** o oedolion yn defnyddio gwasanaethau a mynychu gweithgareddau.
- **827** o blant yn defnyddio gwasanaethau a mynychu gweithgareddau.

Dyma enghraifft wych o gymuned yn dod at ei gilydd i weithio a chyflawni ei photensial.

Am ragor o wybodaeth am y gwaith sy'n mynd rhagddo yn Hwb Pengwern, ymwelwch â'u tudalen Facebook **https://www.facebook.com/Communityhwbpengwern**



Cynnal a chadw
Maintenance

# Rhybudd am gwmnïau hawliadau atgyweirio tai!

Rydym wedi clywed gan sawl tenant sydd wedi cael cwmnïau'n cysylltu â nhw yn honni bod modd iddynt gael iawndal am hawliad atgyweirio, gan gynnig gwasanaeth 'dim llwyddiant, dim ffi'. Nid yw'r cwmnïau hyn yn gysylltiedig â ni.

Ceisiwch gyngor gan gwmni dibynadwy, megis Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych cyn gwneud dim byd.

Os oes gennych waith atgyweirio sydd angen ei wneud, yna:

1. Gadewch i ni wybod drwy ein ffonio ar **01824 706000** neu anfon e-bost at **tai@sirddinbych.gov.uk**
2. Os nad ydych yn fodlon â sut rydym yn delio gyda'r gwaith, defnyddiwch ein gweithdrefn gwyno a byddwn yn edrych i mewn i'r mater.
3. Os byddwch yn dal yn anfodlon, gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Cymru, sy'n gallu cynnig iawndal, ac ni fydd unrhyw gost am hyn.

**Dyma ambell awgrym defnyddiol am roi gwybod am waith atgyweirio:**

1. Os yw'n waith atgyfeirio brys, ffoniwch ni ar 01824 706000 yn ystod oriau gwaith. Byddwch yn amyneddgar gyda ni ar ddydd Llun gan fod y ffonau'n gallu bod yn brysur iawn. Os yw y tu allan i oriau gwaith ac yn argyfwng yn unig, ffoniwch **0300 123 3068**.

Os nad yw'n waith atgyweirio brys, gofynnwn i chi lenwi ffurflen ar-lein ar **https://www.taisirddinbych.co.uk/formbuilder/report-repair/view/** ac fe ymdrechwn i ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith.

2. Ar ôl i'r gwaith gael ei gofnodi, bydd aelod o'n tîm yn cysylltu â chi i drefnu dyddiad ac amser cyfleus i gwblhau'r gwaith.

Sylwer, os ydych chi'n gweld rhif dieithr neu rif preifat ar eich ffôn, efallai mai un o'n tîm yn ffonio i wneud trefniadau fydd yno. Atebwch yr alwad neu ffonio'r rhif yn ôl.

Rydym ni'n gwybod bod rhywbeth yn torri yn eich cartref yn gallu bod yn boen. Boed hynny'n broblem gyda'ch trydan, boeler, gwaith plymio neu'r to, rydym yma i'ch helpu. Rydym ni bob amser yn ceisio atgyweirio unrhyw namau yn eich cartref sy'n gyfrifoldeb i ni o fewn 20 diwrnod gwaith.

Am fwy o wybodaeth am fathau o waith atgyweirio, argyfyngau, ac ati, ewch i **https://www.taisirddinbych.co.uk.**

## NEGES DIOGELWCH

**Cyngor mewn perthynas ag ateb eich drws a rhoi mynediad i gontractwyr a staff eraill y Cyngor i'ch cartref.**

Mae rhai tenantiaid wedi cysylltu â ni i ddweud bod masnachwyr twyllodrus a lladron posibl wedi ceisio cael mynediad i'w cartref gan ddefnyddio manylion adnabod ffug. Felly, hoffem eich atgoffa ei bod yn hollbwysig i chi fod yn ymwybodol o sut i ateb y drws yn ddiogel.

Byddwn yn trefnu ymlaen llaw, naill ai dros y ffôn, neu drwy anfon llythyr neu neges destun atoch, i ddod draw i'ch gweld, a byddwn bob amser yn cario cerdyn adnabod Cyngor Sir Ddinbych â llun arno.

Sicrhewch eich bod bob amser yn gofyn am brawf adnabod cyn agor y drws. Peidiwch â bod ofn gofyn i'r galwr aros nes byddwch wedi ein ffonio i weld pwy ydyn nhw cyn rhoi mynediad iddynt i'ch cartref.

Bydd ein staff a'n contractwyr yn rhoi gwybod i chi pam eu bod nhw yno a pha waith fyddant yn ei wneud.

**Ni fyddwn yn:**

- Gofyn i chi am eich maylion personol.
- Gofyn i chi dalu am unrhyw wasanaethau.
- Gofyn am fynediad i'ch cartref, oni bai eich bod wedi trefnu a chytuno i hyn ymlaen llaw.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon am bobl yn curo ar eich drws yn honni eu bod nhw'n gweithio i ni neu ar ein rhan, ffoniwch ni ar **01824 706000**

Mannau gwyrdd
Greenspace

# Eich Tîm Cynnal a Chadw Tiroedd newydd!

O'r gwanwyn eleni, bydd ein tîm Cynnal a Chadw Tiroedd newydd yn mynd allan i dorri gwair, gwrychoedd, llwyni, ardaloedd chwarae a mannau wyneb caled yn ein cymunedau a'n hystadau! Cadwch lygad allan am weithlu arbennig y Cyngor sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiweddar, byddant yn gwisgo gwisg y Cyngor ac yn gyrru faniau'r Cyngor.

## Tîm y De

Drwy weithio'n agos â'r Cyngor, gallwn leihau ein hôl troed carbon gyda llai o deithio o ddepos o amgylch y sir a threulio mwy o amser yn cwblhau'r gwaith sydd ei angen.

Gobeithiwn, drwy ddod â'r gwasanaeth yn ôl yn fewnol, y byddwn yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i chi, i gefnogi bioamrywiaeth a chreu cymunedau gwyrdd, taclus a glân.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan, byddwn yn ail-lansio ein rhaglen Ceidwaid Gwyrdd yn yr haf. Rydym yn gofyn i chi weithio gyda ni i fonitro'r gwasanaeth a nodi meysydd i'w gwella. Cysylltwch â ni heddiw os hoffech chi ragor o wybodaeth!



Jack (chwith) a Sion (dde).







## Tîm y Gogledd




Edward (chwith) a Reece (dde)




Billy (chwith) a Jason (dde)

## Dod i adnabod rhai aelodau o'r tîm newydd!

### Beth yw eich rôl?

Rydym yn rhan o dîm cynnal a chadw tiroedd y 'Gogledd', ac yn gofalu am dai gwarchod / ystadau Tai Sir Ddinbych a'r ardaloedd o amgylch safleoedd yng ngogledd Sir Ddinbych. Rydym yn ymgymryd â dyletswyddau megis casglu sbwriel, torri gwair naill ai drwy yrru peiriant torri gwair neu ddefnyddio peiriant llaw, strimio, chwythu gwair gweddilliol oddi ar lwybrau ac ati a dyletswyddau eraill megis chwistrellu chwyn, torri gwrychoedd ac ati.

### Y peth gorau am eich swydd?

Mae gweithio yn yr awyr agored a'r awyr iach yn bendant yn fantais yn ogystal â gweithio gyda thîm a chydweithwyr gwych. Mae bob diwrnod yn wahanol ac mae hynny'n grêt – rydym yn gweithio ar draws gogledd Sir Ddinbych ac felly'n brysur iawn a bob amser â digon i'w wneud. Rydym wrth ein boddau'n cwrdd â bobl o bob cefndir a chreu perthynas gyfeillgar a chroesawgar â'r gymuned. Rydym yn mwynhau ac yn ymfalchïo yn ein gwaith i gadw cymunedau / ardaloedd yn lân ac yn daclus.

### Disgrifiwch ddiwrnod arferol...

Byddwn yn cyrraedd y gwaith, llwytho'r fan gydag offer, sicrhau fod gennym y pethau hanfodol, h.y. tanwydd ar gyfer yr offer cynnal a chadw tiroedd ac yn mynd i'r ardaloedd sydd ar ein rhestr / rownd ar gyfer y diwrnod. Byddwn yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw yn yr ardal honno ac yna'n symud ymlaen i'r ardaloedd nesaf ar ein rhestr !! Mae'n eithaf syml, ond rydym yn teithio'n gyson ac yn brysur ofnadwy.

Ar ddiwedd y dydd, byddwn yn mynd yn ôl i'r depo, yn tacluso ein hoffer, cloi'r fan, cysylltu gyda'n cydweithwyr / rheolwyr eraill ac yn sicrhau ein bod yn barod am y diwrnod canlynol.

### Beth hoffech chi i'n tenantiaid wybod am eich tîm?

Rydym yn griw cyfeillgar iawn a bob amser yn barod am sgwrs. Rydym wth ein boddau â'n gwaith a byddwn bob amser yn gweithio i safon uchel. Rydym hefyd yn ystyried yn gyson sut hoffem ni i'n cymunedau / ardaloedd edrych pe baem ni'n byw yma.

Rydym yn eithaf newydd i'r gwaith hwn gan ein bod wedi cymryd drosodd gan y contractwyr diwethaf, felly rydym yn dal i ddysgu am ardaloedd a safleoedd newydd, felly byddwch yn amyneddgar gyda ni os gwelwch yn dda. Fodd bynnag, rydym bob amser yn garedig, felly mae croeso i chi ddod draw a gofyn unrhyw gwestiynau. Rydym ni'n edrych ymlaen at ddod i'ch adnabod chi.


# Gwasanaeth neges destun newydd – cefnogaeth rhent!

Rydym wedi ysgrifennu atoch yn ddiweddar yn rhoi gwybod i chi am wasanaeth neges destun newydd yr ydym wedi bod yn ei dreialu. Os nad ydych chi wedi gweld y llythyr neu heb gael neges testun, dyma rywfaint o fanylion i chi.


Rydym wedi gwrando arnoch ac yn deall bod amseroedd yn galed. Rydym eisiau eich sicrhau ein bod yma i helpu, felly rydym wedi lansio gwasanaeth neges destun 'cefnogaeth rhent' newydd.

Bydd y gwasanaeth neges destun newydd yn helpu'r rheiny ohonoch sy'n ei chael yn anodd talu eich rhent ac sydd mewn ôl-ddyledion rhent. Mae'n bwysig i ni ein bod yn gwella'r ffordd rydym yn cysylltu â chi a'n bod yn helpu lle bynnag y gallwn ni.


**Os fyddwn yn anfon neges destun i chi, bydd yn edrych fel hyn:**




**Agorwch y neges gennym ni**



**Cliciwch ar y ddolen yn y neges**





**Darllenwch y neges, dewiswch opsiwn sy'n gyfleus i chi**




**Os byddwch yn dewis gwneud taliad tuag at eich ôl-daliadau rhent, bydd y dudalen hon yn ymddangos**




**Cliciwch yma**




**Sicrhewch fod gennych gyfeirnod a manylion eich cyfrif rhent**

**I grynhoi – gwybodaeth allweddol i wybod os fyddwn yn anfon neges destun i chi:**

- Byddwch yn derbyn neges destun gennym ni, '**DCCHousing**' gyda dolen i wefan allanol.
- Y ddolen yn eich neges destun fydd **https://www.endx.io/DenbighshireHousing/** cliciwch ar y ddolen hon.
- Pan fyddwch yn clicio ar y ddolen, bydd yn mynd a chi i dudalen we. Byddwch yn gweld gwybodaeth am eich ôl-ddyledion rhent a rhai dewisiadau o'r hyn y gallwch ei wneud nesaf, gan gynnwys:

– Talu eich balans sy'n weddill ar-lein.
– Ffonio ni i drafod cynllun ad-dalu.
– Anfon e-bost i ni i gael mwy o wybodaeth a chyngor.

- Cliciwch ar y dewis sy'n eich gweddu chi orau a dilynwch y camau nesaf.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n cyfrif YouTube **https://www.youtube.com/@taisirddinbych-denbighshir3165**

Dolenni defnyddiol eraill i gael cyngor ar ôl-ddyledion rhent a chefnogaeth cyllidebu:

**https://www.citizensadvice.org.uk/wales/debt-and-money/rent-arrears/**

**https://sheltercymru.org.uk/housing-advice/advice-for-young-people/rent-arrears/**

**https://www.stepchange.org/debt-info/rent-arrears.aspx**

I gael mwy o wybodaeth am ein gwasanaeth newydd, cysylltwch â ni ar **01824 706000**.

# Y gwasanaeth ailgylchu newydd

Mae'r cynwysyddion Tolibocs newydd yn parhau i gael eu cyflenwi ar draws y sir a gallwch wirio'r cyflenwadau sydd i ddod ar y tudalennau ailgylchu ar y wefan.

**Cofiwch! Dechreuodd y gwasanaeth newydd ar y ddydd Llun, 3 Mehefin.**

Gwerthfawrogwn eich amynedd wrth i ni gyflwyno'r gwasanaeth newydd i 45,000 o aelwydydd ar draws y sir. Mae'n bosibl y bydd eich diwrnod casglu'n newid, a bydd y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan o ddydd Mercher, 15 Mai ymlaen. Nodwch os gwelwch yn dda, bydd pecyn gwybodaeth manwl am y gwasanaeth newydd ym mlwch uchaf y Trolibocs ac mae llawer o wybodaeth ar gael ar y dudalen cwestiynau cyffredin ar y wefan.

Mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am y gwasanaeth newydd ar gael ar y dudalen ailgylchu a gwastraff ar ein gwefan. Mae'n cynnwys gwybodaeth am beth sy'n newid, canllawiau a gwybodaeth, a chyflwyniad i'r Trolibocs newydd a llawer mwy.






**Ffeithiau allweddol am y gwasanaeth newydd:**

- bydd gwastraff ailgylchu (papur, gwydr, cardfwrdd, plastig, metel a thuniau) yn cael eu casglu bob wythnos
- bydd gwastraff bwyd yn cael ei gasglu bob wythnos
- bydd y capasiti ailgylchu yn cynyddu o 240 litr bob pythefnos i 290 litr bob wythnos (mwy na dwbl y capasiti presennol)
- byddwn yn casglu eitemau trydanol bach a batris y cartref bob wythnos
- bydd nwyddau hylendid amsugnol yn cael eu casglu bob wythnos (gwasanaeth tanysgrifio)
- bydd gwastraff gardd yn cael ei gasglu bob pythefnos (gwasanaeth taladwy)
- bydd tecstilau yn cael eu casglu bob pedair wythnos
- bydd gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei gasglu bob pedair wythnos mewn bin 240 litr mwy

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i Sir Ddinbych dalu am sortio gwastraff ailgylchu, ac mae'r costau hyn yn cynyddu. Gan fod rhywfaint o'r gwastraff ailgylchu cymysg presennol yn cael ei halogi, mae hyn yn arwain at ddirwyon. Yn ogystal â hynny, gallai oddeutu 33% o'r hyn rydym ni'n ei daflu i'n biniau du ar hyn o bryd gael ei ailgylchu. Gyda phreswylwyr yn trefnu eu gwastraff ailgylchu eu hunain, bydd hyn yn arwain at lai o halogi, a llai o ddirwyon o ganlyniad. Yn ogystal â hynny, bydd ein cyfraddau ailgylchu yn cynyddu ac o ansawdd gwell, er mwyn i'r Cyngor fedru dewis ble i werthu deunyddiau.

Hyd yn oed gyda rhagor o gasgliadau a gweithwyr, bydd y gwasanaeth yn rhatach na'r dull presennol, ac yn bwysicach fyth, yn well i'r amgylchedd.

**Dyddiadau allweddol:**

**23 Chwefror-17 Mai**
Cyflenwi cynwysyddion Trolibocs ar draws y sir

**Dydd Mercher, 16 Mai**
Bydd gwybodaeth am ddyddiau casglu ar gael ar y wefan

**Dydd Llun, 3 Mehefin**
Bydd y gwasanaeth newydd yn dechrau

Mae ailgylchu'n gwneud gwahaniaeth ENFAWR yn Sir Ddinbych.

**Sir Ddinbych yn ailgylchu Denbighshire recycles**

# A WYDDOCH CHI… gallwch arbed arian ychwanegol drwy hawlio Lwfans Priodasol?

Gallai cyplau sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil yn Sir Ddinbych dderbyn hwb ariannol drwy rannu lwfansau treth sydd heb eu defnyddio.

Mae gan gyplau cymwys ddewis i ôl-ddyddio eu hawliad am 4 blynedd, sy'n golygu y gallant dderbyn cyfandaliad o dros £1,000, a lleihau eu bil treth bob blwyddyn. I elwa o'r gostyngiad treth, mae'n rhaid i incwm un partner fod yn llai na'r Lwfans Personol o £12,570. Mae'n rhaid i'r cyplau fod wedi'u geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1935.

Gall preswylwyr Sir Ddinbych ganfod a ydynt yn gymwys mewn 30 eiliad drwy ddefnyddio'r Gyfrifiannell Lwfans Priodasol ar-lein.

Dywedodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol

"Nid yw nifer o gyplau'n ymwybodol eu bod yn gymwys ar gyfer y cynlluniau hyn felly mae'n bwysig ein bod yn tynnu sylw atynt i sicrhau bod y preswylwyr yn gwneud y mwyaf o incwm eu haelwyd.

Rydym yn awyddus i gynnig cymorth a chyngor, mewn cydweithrediad â'n partneriaid, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n wynebu trafferthion o ran costau dydd i ddydd er mwyn cefnogi twf economaidd a chynorthwyo cymunedau i ffynnu yn Sir Ddinbych.

Byddwn yn annog unrhyw un sy'n ceisio gwella eu gwydnwch ariannol a phersonol i gysylltu â Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych. Maent yn darparu cyngor cyfrinachol yn rhad ac am ddim, gan roi gwybodaeth a hyder i bobl ganfod ffordd ymlaen".

Mae Lwfans Priodasol yn arbed arian i gyplau drwy ganiatáu i'r sawl sydd ar incwm is neu sydd heb incwm i leihau faint o dreth y mae eu partner yn ei dalu drwy drosglwyddo hyd at £1,260 o'u Lwfans Personol i'w gŵr, gwraig neu bartner sifil.




Dywedodd Sharon Evans, Rheolwr Tîm y Gwasanaeth Cofrestru /Cofrestrydd Arolygol yng Nghyngor Sir Ddinbych:

"Cynhelir nifer o seremonïau priodasol a phartneriaethau sifil yma yn Sir Ddinbych bob blwyddyn. Nid yw nifer o gyplau'n ymwybodol o'r cynllun treth, a byddwn yn annog unrhyw un sy'n diwallu'r meini prawf i ddefnyddio'r gyfrifiannell a gwneud cais ar-lein yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni ar hyn o bryd."

Y ffordd hawsaf o wneud cais am Lwfans Priodasol yw ar-lein yn **https://www.gov.uk/marriage-allowance**

I gael rhagor o wybodaeth am gymorth o ran costau byw yn Sir Ddinbych ewch i **www.denbighshire.gov.uk/costofliving** neu cysylltwch â Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych **www.cadenbighshire.co.uk**



# Annog pobl ifanc i hawlio eu cynilion!

Gallai nifer o oedolion ifanc yn Sir Ddinbych fod â chyfartaledd o £2,000 yn aros amdanynt yn eu cyfrif Cronfa Ymddiriedolaeth Plant heb eu hawlio.

Mae'r Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant yn gyfrifon cynilo di-dreth hir-dymor a agorwyd ar gyfer pob plentyn a anwyd rhwng 1 Medi 2002 a 2 Ionawr 2011, lle'r oedd y llywodraeth yn cyfrannu blaendal cychwynnol a oedd yn o leiaf £250. Gellir tynnu'r arian ar ôl i'r cyfrif aeddfedu pan fydd y plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed.

Yn ôl data'r llywodraeth, mae bron i filiwn o bobl ifanc yn y DU dal heb hawlio eu Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant. Mae mwy na 800,000 o gyfrifon yn perthyn i bobl o gefndiroedd incwm isel - sydd yn achosi pryder nad yw'r rheiny sydd fwyaf angen yr arian yn cael mynediad ato.

Bydd pob unigolyn 16 oed yn cael gwybodaeth am sut i ddod o hyd i'w Cronfa Ymddiriedolaeth Plant gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi gyda'u llythyr Yswiriant Gwladol. Os oes unrhyw un yn ansicr am eu sefyllfa, yna dylent wirio gyda'u banc neu gymdeithas adeiladu. Fel arall, gall oedolion ifanc a rhieni chwilio ar www.gov.uk/child-trust-funds i ddod o hyd i ble mae eu Cronfa Ymddiriedolaeth Plant yn cael ei gadw.

Dywedoddd y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol:

"Hoffwn annog yr holl bobl ifanc yn Sir Ddinbych i ymchwilio os oes ganddynt arian sydd heb eu hawlio mewn Cronfa Ymddiriedolaeth Plant ac i'w ddefnyddio'n ddoeth. Gellir symud y buddsoddiad i ISA oedolyn neu ei ddefnyddio ar gyfer eu haddysg neu wersi gyrru.

Byddwn yn annog pobl ifanc i ddefnyddio'r adnodd ar-lein i'w olrhain, neu i rieni plant yn eu harddegau i siarad â nhw i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u Cronfa Ymddiriedolaeth Plant. Gallai hyn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w cynlluniau ar gyfer eu dyfodol.

Mae gan yr arian sydd mewn Cronfa Ymddiriedolaeth Plant y posibilrwydd o newid bywyd, ac mae diffyg gwybodaeth amdanynt yn dangos pwysigrwydd cynllunio ac addysg ariannol o oed ifanc."




Mae 5.3 miliwn o gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Plant yn agored ar hyn o bryd. Gall pobl ifanc 16 oed neu'n hŷn gymryd rheolaeth o'u Cronfa Ymddiriedolaeth Plant eu hunain, er na ellir tynnu'r arian o'r gronfa tan fyddant yn 18 oed. Gall teuluoedd barhau i dalu hyd at £9,000 y flwyddyn yn ddi-dreth i'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant tan fydd y cyfrif yn aeddfedu. Mae'r arian yn aros yn y cyfrif tan fydd y plentyn yn ei dynnu allan neu yn ei ail-fuddsoddi i mewn i gyfrif arall.

Os nad oedd rhiant neu warcheidwad wedi gallu agor cyfrif i'w plentyn, bu i'r llywodraeth agor cyfrif cynilo ar ran y plentyn. Bu i'r cynllun Cronfa Ymddiriedolaeth Plant gau ym mis Ionawr 2011 a bu i Gyfrifon Cynilo Unigol (ISA) Plant gymryd eu lle.

I gael rhagor o wybodaeth am gymorth o ran costau byw yn Sir Ddinbych, ewch i **https://www.denbighshire.gov.uk/cy/budd-daliadau-grantiau-a-chyngor-arian/cymorth-costau-byw/cymorth-costau-byw.aspx neu cysylltwch â Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych www.cadenbighshire.co.uk.**

# Y wybodaeth ddiweddaraf am gartrefi newydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yn rhifynnau diwethaf ein Newyddlen, rydym wedi bod yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y rhandai newydd sy'n cael eu hadeiladu ar hen safle'r llyfrgell ar Ffordd Llys Nant ym Mhrestatyn.

Mae'r gwaith o gael y rhandai hyn yn barod wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, ond bydd tenantiaid yn symud i'w cartrefi newydd y gwanwyn hwn.

Mae 14 o randai un ystafell wely ar dri llawr uchaf yr adeilad a lifft i gyrraedd bob un ohonynt, yn ogystal â chawodydd â mynediad gwastad yn eu hystafelloedd ymolchi.

Mae pympiau gwres o'r ddaear wedi'u gosod yn y datblygiad sy'n defnyddio gwres naturiol y Ddaear i ddarparu gwres canolog heb fod angen boeleri nwy. Mae paneli solar ar do'r adeilad hefyd sy'n cynhyrchu trydan ac yn helpu i gadw costau ynni'n isel i denantiaid.

Ar lawr gwaelod yr adeilad, ceir dwy uned y gellir eu defnyddio fel siopau neu swyddfeydd ac mae Heddlu Gogledd Cymru'n cynnig sefydlu gorsaf Heddlu newydd i'r dref yn un o'r unedau hyn.

Rydym yn y broses o nodi sut y gellir dyrannu'r cartrefi newydd hyn i fodloni'r anghenion tai yn yr ardal leol.

Dyma'r ail ddatblygiad tai Cyngor newydd i gael ei gwblhau yn Sir Ddinbych dros y deuddeg mis diwethaf - mae'r ddau ddatblygiad ym Mhrestatyn, fel mae'n digwydd - ac yn rhifyn nesaf y Newyddlen, byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda chi am y tai Cyngor newydd yn y Rhyl a Dinbych.













# Ein cymunedau

## Gwnaed gwelliannau'n ddiweddar i ystafell gymunedol Llygadog yng Nghorwen er mwyn rhoi edrychiad newydd, modern, i'r ystafell.

Gwnaed estyniad newydd i'r gegin er mwyn creu mwy o le ar gyfer cynnal gweithgareddau fel clwb cinio a phaned a sgwrs. Mae'r ardal TG wedi cael ei hailwampio hefyd ac ar hyn o bryd disgwylir i'r cyfrifiaduron newydd gael eu gosod. Bydd sesiynau sgiliau digidol yn cael eu cynnal ar gyfer y rheiny nad ydynt yn hyderus wrth eu defnyddio. Gwnaed y gwelliannau hyn diolch i gyllid o Gronfa Ffyniant Bro Cymru Llywodraeth y DU.







# Cyflwyno Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC 2023) – Beth mae'n ei olygu i chi!

Mae'n bosibl fod rhai ohonoch wedi clywed am Safon Ansawdd Tai newydd Cymru 2023 a ddiweddarwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) ym mis Hydref 2023, ond beth mae hyn yn ei olygu i chi a sut ydym ni am ei gyflawni?

**Dyma rai cwestiynau cyffredin am Safonau Ansawdd Tai Cymru, gobeithio y bydd o gymorth.**

### 1. Beth yw Safon Ansawdd Tai Cymru 2023?

Ym mis Hydref 2023, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno set newydd o safonau ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu tai fforddiadwy i denantiaid, o ansawdd da, addas ar gyfer anghenion preswylwyr presennol a'r dyfodol.

### 2. Beth yw'r prif bethau sydd wedi eu cynnwys yn y safonau newydd?

Er mwyn i ni fodloni safonau Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'ch cartrefi:

- Fod mewn cyflwr da.
- Fod yn saff a diogel.
- Beidio costio gormod i'w gwresogi. A pheidio bod yn wael i'r amgylchedd.
- Yn cynnwys ardal gyfleustodau a chegin fodern.
- Yn cynnwys ystafell ymolchi fodern.
- Cyfforddus ac addas i'r sawl sy'n byw yno.
- Cynnwys gardd os yn bosibl.
- Bod â lleoliad braf y tu allan os yn bosibl

### 3. Beth yw'r amserlenni?

Dyma'r prif ddyddiadau cau y byddwn yn gweithio tuag atynt:

**31 Mawrth 2025:**

- Asesu cyflwr eich cartrefi fel ein bod yn gwybod beth rydym angen ei wneud. I wneud hyn byddwn yn edrych ar y wybodaeth sydd gennym am eich cartrefi. Mae'n bosibl y byddwn angen ymweld â rhai o'ch cartrefi ond byddwn yn gadael i chi wybod os byddwn.
- Creu cynllun a gweithio allan faint y bydd yn ei gostio i gael cartrefi i fyny i'r safonau. Mae'n rhaid i ni roi hwn i Lywodraeth Cymru.
- Ymgysylltu â chi a dangos beth fyddwn yn ei wneud fel y gallwch chi ddweud eich dweud. Byddwn yn gweithio'n agos ar hyn gyda'n Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych.
- Diweddaru ein cynllun busnes i gynnwys unrhyw welliannau a gwaith rydym angen ei wneud i gydymffurfio gyda Safon Ansawdd Tai Cymru 2023.

**31 Mawrth 2027:**

- Cynhyrchu ein Llwybrau Ynni Targed (TEP) yn defnyddio'r wybodaeth rydym wedi'i chael o'ch asesiadau cartref. Mae TEP yn dangos i ni beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod eich cartref yn cynnwys system wresogi y gallwch chi fforddio ei rhoi ymlaen.

**31 Mawrth 2034:**

- Mae'n rhaid i ni fodloni'r safonau hyn.

### 4. Beth ydyn ni wedi'i wneud hyd yma?

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio drwy safonau Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 ac yn llunio cynllun gweithredu y gallwn ei rannu gyda thenantiaid erbyn mis Mawrth 2025. Bydd gennym fwy o wybodaeth am hyn yn newyddlen yr Hydref i chi.

### 5. Sut y telir am hyn?

Rydym angen ystyried sut fydd y gwelliannau, yr ydym angen i gyflawni'r safonau newydd yn cael eu hariannu. Bydd y rhan fwyaf o hyn yn cael ei ariannu drwy ein hincwm o renti a rhywfaint o gyllid Llywodraeth Cymru. Penderfynir ar amserlen y gwaith yn ôl ein gallu i ariannu hyn mewn ffordd gynaliadwy.

### 6. Sut fedra i gymryd rhan?

Rhan bwysig o'r safonau newydd hyn yw eich cyfraniad chi. Byddwn yn gweithio'n agos ar hyn gyda grŵp tasg a gorffen. Os hoffech fod yn rhan o'r grŵp hwn o denantiaid a'n cefnogi ni i weithredu Safon Ansawdd Tai Cymru, yna cysylltwch â ni.

### 7. Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â beth mae'r rhain yn ei gynnwys, ewch i **https://www.llyw.cymru/safon-ansawdd-tai-cymru-2023-0**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government